



Adran y Gymraeg
ac Astudiaethau Celtaidd
CYLCHLYTHYR
Medi 2018



CROESO

Fáilte!
Degemer Mad!
Welcome!

Croeso i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf sy'n croesi trothwy'r Adran am y tro cyntaf, a chroeso cynnes yn ôl i fyfyrwyr yr ail a'r drydedd!

Croeso'n ôl hefyd i ddau aelod o staff yr Adran: i Rhianedd Jewell ar ôl cyfnod mamolaeth; ac i Peadar Ó'Muircheartaigh ar ôl cyfnod yng Nghanolfan Uwchfrydiau Dulyn.

CARTREF NEWYDD

Ar ôl pum mlynedd yn Adeilad Hugh Owen, mae'r Adran bellach wedi symud i fyny Rhiw Pen-glais i'w chartref newydd yn Adeilad Parry-Williams ...

MWY O FANYLION
AR DUDALEN 2



PENNAETH DROS DRO

Yn ystod cyfnod ymchwil Cathryn Charnell-White hyd ddiwedd Ionawr 2019, Eurig Salisbury sydd wedi ymgymryd â'r awenau fel y Pennaeth Adran Dros Dro ...

DARLENA FWY AR DUDALEN 3



ÔL-RADD?

Wyt ti'n graddio eleni? Hoffet ti barhau â dy astudiaethau yn yr Adran ac aros yn Aber am flwyddyn arall, neu fwy? Mae gennym nifer o gyfleoedd ôl-radd ar dy gyfer ...

MANYLION AR DUDALEN 4





ADEILAD

PARRY-WILLIAMS

Dros yr haf eleni fe symudodd yr Adran o Adeilad Hugh Owen i adeilad sy'n coffáu'r bardd a'r llenor T.H. Parry-Williams – un o'n cyn-fyfrwyr enwocaf, cyn-ddarlithydd yn yr Adran ac Athro'r Gymraeg rhwng 1920 ac 1952. Yn hynny o beth, mae Adeilad Parry-Williams yn gartref naturiol i'r Adran. Mae ein swyddfeydd wedi eu lleoli yn ochr chwith yr adeilad (wrth edrych i fyny'r bryn) yn y rhan a elwir y Ffowndri. Rydym yn rhannu prif swyddfa'r Adran – yr ystafell â'r ffenestr agored i'r dde ar ben y grisiau mawr brics coch – â'n cymdogion yn yr adeilad, yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu. Hoffem ddiolch i bawb yn yr adran honno am estyn croeso mor gynnes inni i'n cartref newydd.

DAU O'N CYN-RADDEDIGION YN ENNILL Y GORON A'R GADAIR

Fe ddilynodd dau o gyd-fyfrwyr yr Adran yn ôl troed T.H. ddechrau Awst, gan ennill dwy o brif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr iawn i Catrin Dafydd, prifardd y Goron, a luniodd gasgliad o gerddi am gymunedau'r brifddinas, ac i Gruffudd Owen, prifardd y Gadair, a ganodd awdl gyfoes am wacter ystyr yng Nghymru heddiw.

Bydd noson arbennig i ddathlu llwyddiant Catrin a Gruffudd yn cael ei chynnal yn y Brifysgol yn ystod Semester 1 – daw'r manylion yn fuan!





'... gyda'r
gwynt
yn ein
hwyliau.'

NEWYDDION YR ADRAN

PENNAETH DROS DO, LLYWYDD UMCA A LLAWER MWY

Rhwng dechrau Awst eleni a diwedd Ionawr 2019, bydd Pennaeth yr Adran, **Cathryn Charnell-White**, ar gyfnod sabothol i wneud gwaith ymchwil, ac fe lenwir y swydd dros dro gan **Eurig Salisbury**.

Yn ogystal â llenyddiaeth gymdeithasaidd y **Cymry Llundainig**, bydd Cathryn yn gweithio ar **farddoniaeth merched** drwy olygu, cyfieithu a dadansoddi testunau newydd, gan ddadansoddi gwahanol batrymau yn y gwaith.

Wrth ymgymryd â'r swydd am chwe mis, dywedodd Eurig: 'Rwy'n edrych ymlaen at lywio'r Adran drwy foroedd heriol Semester cyntaf y tymor newydd, gyda'r symud diweddar i Adeilad Parry-Williams yn wynt yn ein hwyliau!'

A sôn am ddechreuadau newydd, bydd newidiadau strwythurol yn cael eu rhoi ar waith ar draws y Brifysgol dros y misoedd nesaf, wrth i'r hen drefn athrofaol gael ei disodli gan un newydd gyfadrannol. Bydd yr Adran o hyn ymlaen yn rhan o **Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**.

Diolch i Gwion Llwyd am flwyddyn o gydweithio fel Llywydd UMCA 2017–18, a llongyfarchiadau i'r llywydd newydd, neb llai nag un o raddedigion yr Adran eleni, **Anna Wyn** (llun ar dudalen 1). Anna yw **Llywydd UMCA 2018–19**, ac mae'r Adran yn edrych ymlaen at gydweithio â hi.

Yn wir, mae'r gwaith wedi dechrau eisoes o sefydlu **cynllun mentora** yn yr Adran mewn cydweithrediad ag UMCA. Bydd y cynllun ar gael yn y lle cyntaf i fyfyrwyr ail iaith y flwyddyn gyntaf – penodir mentoriaid o'r ail a'r drydedd – a bydd yn cael ei lywio gan ein **Tiwtor Ail Iaith** newydd, Rhianedd Jewell.

At hynny, llongyfarchiadau mawr i Rhianedd am gael ei hanrhydeddu ym mis Mai â **medal Dillwyn yn y Celfyddydau Creadigol a'r Dyniaethau** gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Gyda dychweliad **Peadar Ó'Muircheartaigh** i'r Adran ar ôl cynfod yn Nulyn, mae'n wych o beth y bydd Peadar, fel rhan o arlwy **Astudiaethau Celtaidd**, yn cynnig modiwlau ar Wyddeleg ac ar Aelig yr Alban drwy gyfrwng y Gymraeg.

MA, MPhil a PhD

Os wyt ti ym mlwyddyn olaf dy radd BA eleni, ac os wyt ti'n ystyried parhau â dy astudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae gan yr Adran nifer o gyfleoedd ôl-radd ar dy gyfer:

- **MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol**

Cwrs uwchraddedig unigryw sy'n edrych ar bob agwedd ar waith y cyfieithydd proffesiynol yn y Gymru gyfoes – am fwy o wybodaeth, cysyllta â Mandi Morse (emm25@aber.ac.uk);

- **MPhil**

Blwyddyn i lunio traethawd ymchwil ar bwnc o dy ddewis di, a hynny dan gyfarwyddyd arbenigol aelodau o staff yr Adran – am fwy o fanylion, cysyllta â Simon Rodway (syr@aber.ac.uk);

- **PhD**

Tair blynedd i lunio traethawd ymchwil sylweddol ar bwnc o dy ddewis di, a hynny dan gyfarwyddyd arbenigol aelodau o staff yr Adran – am fwy o wybodaeth, cysyllta â Simon Rodway (syr@aber.ac.uk).



Adran y Gymraeg PA



@CymraegAber



cymraegaber



WYTHNOS Y GLAS: ISRADDEDIGION

10.00 ddydd Llundun 24 Medi, Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau
Croeso gan Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

11.00 ddydd Llundun 24 Medi, Adeilad Parry-Williams
Croeso i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf i Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Ddydd Mawrth 25 Medi, Canolfan y Celfyddydau
Cofrestru Rhan 1 (y flwyddyn gyntaf)

9.00 ddydd Iau 27 Medi (lleoliad i'w gadarnhau)
Croeso i fyfyrwyr Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, a chofrestru

14.00 ddydd Iau 27 Medi, Adeilad Parry-Williams
Croeso'n ôl i fyfyrwyr yr ail a'r drydedd, a thaith o gwmpas yr adeilad

Nos Lun 1 Hydref, Noson Gwis yr Adran, Llew Du
Gwobrau a bargeinion bwyd i holl fyfyrwyr yr Adran

